



**CYMDEITHAS GYMUNEDOL PENARTH ISAF, BROCKHILL WAY, PENARTH CF64 5QD**

**Elusen Gofrestredig Rhif 1074675-Strwythur Prasio a Rheolau ar gyfer Llogi Rheolaidd 1 Ebrill 2019**

**Trosolwg Prasio**

- Mae tair prif gyfradd codi tâl fesul awr am archebion rheolaidd – safonol, cymorthdaledig a masnachol.
- Caiff archebion rheolaidd eu diffinio fel cyfres o ddyddiadau sydd wedi'u harchebu ymlaen llaw yn rheolaidd e.e. yr un pryd unwaith yr wythnos, unwaith y mis ac ati. Gall archebion rheolaidd eithrio gwyliau'r ysgol a gwyliau cyhoeddus.
- Ystyrir pob archeb un tro fel "achlysurol" ac yn cael ei gwmpasu gan y ddogfen Llogi Achlysurol.
- Bydd y gyfradd gymorthdaledig yn parhau ar gyfer mwyafrif y grwpiau presennol ar eu cyfradd bresennol.
- Bydd archebion masnachol rheolaidd yn denu cyfraddau uwch fesul awr nag archebion rheolaidd anfasnachol.
- Mae'n bosibl y bydd pob archeb yn denu blaendal a bond, ac mae'n rhaid talu'r ddau, os bydd eu hangen cyn terfynu'r archeb.
- Bydd Pwyllgor Rheoli Cymdeithas Gymunedol Penarth Isaf yn pennu a fydd digwyddiad o Fudd i'r Cyhoedd.
- Bydd yr Ystafell Bwyllgor yn denu cyfradd fesul awr ar wahân i'r brif neuadd. Bydd y gyfradd hon yr un peth ar gyfer defnyddwyr masnachol ac anfasnachol.
- Codir blaendaliadau ar gyfer allwedd fesul allwedd ac nid fesul grŵp. E.e. mae dau allwedd yn cyfateb i ddau flaendal allwedd.
- Caiff pob blaendal allwedd ei ad-dalu ar ddiwedd y cytundeb llogi ar ôl dychwelyd yr allwedd(i) i Gymdeithas Gymunedol Penarth Isaf.
- Caiff eithriadau i'r taliadau llogi a gyhoeddwyd eu penderfynu gan bwyllgor Cymdeithas Gymunedol Penarth Isaf.
- Gan fod Canolfan Gymunedol Penarth Isaf yn orsaf bleidleisio, efallai y bydd angen canslo sesiynau rheolaidd er mwyn i bleidleisio ddigwydd. Ni chodir tâl ar unrhyw logwyr rheolaidd am sesiynau na allant eu defnyddio
- Weithiau, efallai y bydd angen cau'r neuadd i logwyr oherwydd gwaith cynnal a chadw a/neu waith atgyweirio. Ni chodir tâl ar unrhyw logwyr rheolaidd y bydd hyn yn effeithio arnynt am sesiynau na allant eu defnyddio.
- Bydd pob llogwr rheolaidd yn cael cyfnod mynd i mewn a gosod i fyny yn rhad ac am ddim a chyfnod clirio i fyny a mynd allan yn rhad ac am ddim. Bydd hyn rhwng 15 a 30 munud ar gyfer pob cyfnod mynd i mewn a mynd allan.

**Cansliadau - Archebion achlysurol masnachol ac anfasnachol:**

- Ni fydd cansliadau a wneir gydag o leiaf pythefnos o rybudd yn denu unrhyw daliadau
- Ac eithrio o dan amgylchiadau esgusodol, bydd cansliadau a wneir gyda llai na pythefnos o rybudd yn arwain at y taliad am y sesiwn yn cael ei gynnal.

**Proses Adolygu Archebion**

- Bydd pwyllgor Cymdeithas Gymunedol Penarth Isaf yn cysylltu â phob defnyddiwr rheolaidd yn rheolaidd i ofyn iddynt gadarnhau eu harchebion.

Strwythur Prasio Llogi Rheolaidd Cymdeithas Gymunedol Penarth Isaf 2019

- Caiff y rheolau hyn a'r cyfraddau fesul awr eu hadolygu bob blwyddyn a chânt eu cyhoeddi ar ein tudalennau Facebook, ar yr hysbysfyrddau yn y Ganolfan Gymunedol ac ar wefan Bro Morgannwg yn [www.valeofglamorgan.gov.uk/en/enjoying/Community-Centres/Community-Centres.aspx](http://www.valeofglamorgan.gov.uk/en/enjoying/Community-Centres/Community-Centres.aspx)
- Ceir crynodeb o'r ddogfen hon ar ffurf tabl isod
- Mae Strwythurau Prasio a Rheolau ar gyfer Llogwyr Achlysurol hefyd ar gael ar y safleoedd a restrir uchod



**TALIADAU AR GYFER LLOGI ACHLYSUROL YNG NGHANOLFAN GYMUNEDOL PENARTH ISAF 1 EBRILL 2019**

<b>MATHAU AR LOGI RHEOLAIDD</b>	<b>PRIS Yr Awr</b>	<b>BLAENDA L AR GYFER ALLWEDD Y NEUADD fesul allwedd</b>	<b>ARALL</b>	<b>POLISI CANSLO</b>
Anfasnachol	£11.00	£25.00	Mae'n cynnwys y Brif Neuadd a'r Gegin.	Rhaid rhoi o leiaf 2 wythnos o rybudd ar gyfer canslo. Caiff blaendaliadau ar gyfer allweddi eu had-dalu pan gaiff yr allwedd ei ddychwelyd.
Masnachol	£20.00	£25.00	Mae'n cynnwys y Brif Neuadd a'r Gegin.	Rhaid rhoi o leiaf 2 wythnos o rybudd ar gyfer canslo. Caiff blaendaliadau ar gyfer allweddi eu had-dalu pan gaiff yr allwedd ei ddychwelyd.
Â chymhorthdal - Cyfradd yn ôl disgrisiwn Cymdeithas Gymunedol Penarth Isaf.	£10.00	£25.00	Mae'n cynnwys y Brif Neuadd a'r Gegin.	Rhaid rhoi o leiaf 2 wythnos o rybudd ar gyfer canslo. Caiff blaendaliadau ar gyfer allweddi eu had-dalu pan gaiff yr allwedd ei ddychwelyd.
Rheolaidd - Yr Ystafell Bwyllgor	£10.00	£25.00	Mae'n cynnwys y Brif Neuadd a'r Gegin.	Rhaid rhoi o leiaf 2 wythnos o rybudd ar gyfer canslo. Caiff blaendaliadau ar gyfer allweddi eu had-dalu pan gaiff yr allwedd ei ddychwelyd.

Strwythur Prasio Llogi Rheolaidd Cymdeithas Gymunedol Penarth Isaf 2019

Budd Cyhoeddus	£0.00	£25.00	Yn ôl disgrisiwn Cymdeithas Gymunedol Penarth Isaf.	Caiff blaendaliadau ar gyfer allweddi eu had-dalu pan gaiff yr allwedd ei ddychwelyd.
----------------	-------	--------	---	---